## Llawlyfr i ysgolion cynradd sy'n ceisio

# Achrediad Cymdogion Byd-eang


Grymuso dysgwyr i fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n chwarae eu rhan mewn herio anghyfiawnder byd-eang



Cynllun achrediad i ysgolion cynradd gan Cymorth Cristnogol mewn partneriaeth â'r Eglwys yng Nghymru.

# Rhagair

## Y Parchedicaf Andrew John,
### Archesgob Cymru




Wrth i anghyfiawnderau byd-eang gynyddu o un flwyddyn i'r llall, wrth i'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd dyfu'n lletach a lletach, ac wrth i'r bygythiadau i harddwch a hyd yn oed fodolaeth ein byd naturiol dyfu, ein dyletswydd yw ennyn y plant a'r bobl ifanc yn ein hysgolion i drafod y materion sy'n creu her i gymaint, yn ogystal ag ymddygiadau enghreifftiol sy'n dangos y gallan nhw hefyd fod yn gyfryngau newid.

Fel oedolion, rydyn ni'n aml yn teimlo'r angen i amddiffyn plant rhag trafferthion bywyd, ac eto dro ar ôl tro, daw'n amlwg fod hyd yn oed ein dysgwyr ieuengaf oll yn ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu'r byd drwy'r newyddion, eu teulu ehangach a phrofiad byw cynyddol.

Yn fwy felly, mae cael ein haddysgu am gynefin, y lle rydyn ni'n teimlo ein bod ni'n perthyn a'r hyn sydd wedi'n ffurfio ni, mewn ysgolion yng Nghymru yn rhoi'r cyfle i ni archwilio ein perthynas a'n cydgysylltiad â'r byd ehangach. Mae cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar bwy rydyn ni eisiau i'n plant a'n pobl ifanc fod yn cynnig cyfleoedd di-ben-draw i ddysgu am achosion tlodi ac anghyfiawnder a chyfranogi mewn gweithredu cymdeithasol.


Mae Cymdogion Byd-eang Cymru, cynllun achredu Cymorth Cristnogol, yn annog ysgolion i gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag anghyfiawnderau cymdeithasol, a'u herio i fod yn rhagweithiol. Mae'n eu hannog i ymgorffori gweithredu cymdeithasol yn eu polisïau, eu harferion a'u cwricwlwm fel bod canfod cyfleoedd i wneud gwahaniaeth yn dod yn arferiad, yn rhan o DNA yr ysgol.

Mae timau addysg yr Eglwys yng Nghymru wedi bod yn falch iawn o gydweithio â Cymorth Cristnogol Cymru i addasu'r fframwaith Cymdogion Byd-eang fel ei fod yn cydweddu â'r Cwricwlwm i Gymru a bod modd ei ddefnyddio fel adnodd i gefnogi pob ysgol yn eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc.



# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyflwyno Cymdogion Byd-eang** | **4** |
| | Dinasyddiaeth Fyd-eang yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru | 6 |
| **2** | **Achrediad Cymdogion Byd-eang** | **8** |
| | Sut i wneud cais am achrediad | 10 |
| | Meini prawf Cymdogion Byd-eang | 12 |
| | Arweinyddiaeth, gweledigaeth a gwerthoedd | 12 |
| | Addysgu a dysgu | 14 |
| | Cydaddoli | 16 |
| | Datblygiad ysbrydol | 18 |
| | Cyfranogiad dysgwyr mewn dinasyddiaeth fyd-eang weithredol | 20 |
| | Ymgysylltu â'r gymuned | 22 |
| **3** | **Gwaith darllen pwysig** | **24** |
| | Terminoleg | 25 |
| | Osgoi ystrydebau a sicrhau'r cydbwysedd cywir | 25 |
| | Pwysigrwydd gwrth-hiliaeth | 26 |
| | Cyfiawnder hinsawdd | 27 |
| | Osgoi 'eco-bryder' | 27 |
| | Ymwneud gwleidyddol a bod yn ddiduedd | 28 |
| **4** | **Cymorth, adnoddau a chwestiynau cyffredin** | **30** |
| | Creadigol dros Gyfiawnder Hinsawdd | 32 |
| | Adnoddau a chymorth pellach | 34 |
| | Calendr dinasyddiaeth fyd-eang | 38 |
| | Cwestiynau cyffredin | 40 |
| | Cysylltu | 42 |



# 1 Cyflwyno Cymdogion Byd-eang

**Bydd ein holl blant a phobl ifanc yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n:**

- canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn
- trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
- deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd
- deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu
- wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol
- parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol
- dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaliadwyedd y blaned

Ac…

**…sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd.**

Cwricwlwm i Gymru 2022



Yn bennaf oll, mae'r cynllun achredu hwn yn ymwneud â phlant a phobl ifanc; eu hanghenion a'u dyheadau, eu cymeriad, a'u gobeithion am y byd y maen nhw'n tyfu i fyny ynddo a sut i gyfrannu at fynd i'r afael â'i heriau.

Mae'n fyd globaleiddiedig a rhyng-gysylltiedig lle nad yw'n bosib deall eu bywydau beunyddiol a'u cymunedau lleol yn llawn heb gyfeirio at ddarlun byd-eang ehangach. Ar y naill law, mae'n fyd llawn rhyfeddod a phosibiliadau a chyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan dechnoleg. Ar y llaw arall, mae'n fyd sydd wedi'i greithio gan raniadau, anghydraddoldeb eithafol, anghyfiawnder, tlodi, gwrthdaro ac argyfyngau amgylcheddol. Efallai y byddwn ni weithiau awydd gwarchod plant a phobl ifanc rhag llawer o'r problemau hynny, ond gwyddom fod hynny bron yn amhosib. Mae hyd yn oed y plant ieuengaf un yn ein hysgolion yn ymwybodol o anghyfiawnder, anfantais a gwrthdaro, diolch i'r cyfryngau ond mewn sawl achos, drwy brofiad personol uniongyrchol. Gyda'r ddirnadaeth rannol iawn honno, maen nhw hefyd yn cyflwyno cyfres gymhleth o gwestiynau, pryderon ac emosiynau i'r ysgol.

Y newyddion da yw bod ein hysgolion yn cynnig trefn a lle diogel mawr eu hangen ar blant a phobl ifanc i ddechrau gwneud rhywfaint o synnwyr o'r byd sydd ohoni, sy'n rhyfeddol, drylliedig a chymhleth, ac archwilio eu lle ynddo. Mae Cwricwlwm i Gymru 2022 bellach yn rhoi cyfle i bob ysgol ddatblygu cwricwlwm lle mae'r materion hyn yn ganolog iddo.

Mae Cymdogion Byd-eang yn gynllun achredu sy'n cydnabod ac yn dathlu popeth y mae ysgolion yn ei wneud i rymuso eu pobl ifanc i ddod yn ddinasyddion byd-eang gweithredol. Cafodd ei ddatblygu gan Cymorth Cristnogol mewn partneriaeth â'r Eglwys yng Nghymru, gydag anghenion a dyheadau penodol ysgolion eglwysig mewn golwg.* Fodd bynnag, mae'r cynllun ar gael i bob ysgol gynradd yng Nghymru, waeth beth fo'i statws o ran ffydd. Beth bynnag yw eich cyd-destun, mae gwobr Cymdogion Byd-eang yn cynrychioli ymrwymiad rhagorol i addysg dinasyddiaeth fyd-eang.

*Mae Cymdogion Byd-eang yn cefnogi gofynion arolygu Adran 50 ar gyfer ethos, cydaddoli ac arweinyddiaeth. .

Mae'r cynllun yn helpu plant i ddeall y cysylltiad rhwng eu bywydau nhw a bywydau eu cymdogion byd-eang.



# Dinasyddiaeth fyd-eang yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru

### Mae Dinasyddiaeth Fyd-eang yn cefnogi dysgu o ansawdd uchel a'r Cwricwlwm i Gymru oherwydd:

- mae'n darparu cyd-destunau bywyd go iawn ar gyfer dysgu drwy brofiad a chyfleoedd i ddysgwyr archwilio materion y byd go iawn
- mae'n meithrin y sgiliau sy'n rhan annatod o'r pedwar diben, sy'n paratoi plant a phobl ifanc ar gyfer byw yn dda gyda'u cyd-ddyn
- mae'n cyfrannu at ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.
- mae'n helpu dysgwyr i ddatblygu eu gwerthoedd a sefydlu eu credoau egwyddorol ac ysbrydol
- mae'n meithrin hyder, gwytnwch ac empathi
- mae'n datblygu cwestiynu a doniau datrys problemau
- mae'n annog creadigrwydd.

### Mae Cymdogion Byd-eang Cymru yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru oherwydd:

- mae'n cefnogi ysgolion i ganolbwyntio ar y pedwar diben
- yn fwy penodol, mae'n cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn enwedig yn y Dyniaethau:
  - Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol
  - Mae digwyddiadau a phrofiadau pobl yn gymhleth, a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd
  - Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol
  - Mae cymdeithasau pobl yn gymhleth ac yn ac amrywiol maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd chredoau pobl
  - Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.




Mae bod yn ddinesydd egwyddorol gwybodus yn ymwneud ag archwilio ein cysylltedd a'n perthynas ag eraill.






Mae Cymdogion Byd-eang yn cydnabod nad oes atebion syml i broblemau cymhleth. Wrth ystyried pa gamau y gallai myfyrwyr eu cymryd o ganlyniad i'w dysgu, rydych yn cael eich annog i feddwl y tu hwnt i godi arian yn unig. Mae codi arian i elusennau yn gallu gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau pobl. Mae hefyd yn gallu bod yn ffordd bwerus o fynegi pryder a chefnogaeth, yn ogystal â ffordd o ddatblygu sgiliau. O'r herwydd, mae angen meddwl cyn mynd ati. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod dysgwyr yn dysgu am waith elusen sy'n cael eu cefnogaeth mewn ffyrdd sy'n parchu urddas a galluedd y bobl sy'n cael cefnogaeth ganddi. Mae hefyd yn golygu pennu cyd-destun i godi arian.

Mae Cymorth Cristnogol, er enghraifft, yn ystyried fod tlodi yn ymwneud â dadrymuso, ac yn cael ei achosi'n sylfaenol gan anghydraddoldeb a chamddefnyddio grym. Mae codi arian – ar ei ben ei hun – yn annhebygol o ddatrys anghyfiawnderau sylfaenol, a dyna pam mae Cymorth Cristnogol a'i bartneriaid ar flaen y gad o ran symudiadau pwysig i wrthdroi'r strwythurau a'r systemau sy'n cynnal tlodi ac anghyfiawnder. O ganlyniad, bydd gan aseswyr Cymdogion Byd-eang ddiddordeb yng nghyfranogiad gweithredol a phrosesau gwneud penderfyniadau dysgwyr wrth godi arian, a sut y mae dysgwyr hefyd yn meddwl yn ehangach am sut i fod yn gyfryngau newid.

I sicrhau dirnadaeth ddyfnach o'r egwyddorion sy'n sail i'r cynllun, cymerwch olwg ar yr adran 'Gwaith darllen pwysig', sy'n dechrau ar dudalen 24.

Mae Cymdogion Byd-eang yn helpu plant i ddod yn ddinasyddion egwyddorol gwybodus sy'n dysgu bod eu lleisiau'n bwerus ac yn gallu cael effaith gadarnhaol ar y byd.





# 2 Achrediad Cymdogion Byd-eang

Y wybodaeth sydd ei hangen arnoch i ddod yn ysgol Cymdogion Byd-eang.





## Achrediad Cymdogion Byd-eang

Mae ysgolion yn cael eu hasesu ar lefel **Efydd**, **Arian** ac **Aur** mewn perthynas **â chwe maes prawf**:

- Arweinyddiaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd
- Addysgu a Dysgu
- Cydaddoli
- Datblygiad Ysbrydol
- Cyfranogiad Dysgwyr mewn Dinasyddiaeth Fyd-eang Weithredol
- Ymgysylltu â'r Gymuned.

Nid yw meysydd y meini prawf yn annibynnol ar ei gilydd. Yn aml, maen nhw'n cefnogi ac yn gorgyffwrdd â'i gilydd, felly mae cyflawni'r meini prawf mewn un maes yn gallu helpu i wneud hynny mewn un arall. Er enghraifft, mae gwaith sy'n cael ei wneud ym maes cyfranogiad dysgwyr mewn dinasyddiaeth fyd-eang weithredol yn gallu deillio o weithgareddau dysgu yn yr ystafell ddosbarth o dan addysgu a dysgu, neu fod yn rhan ohonyn nhw, a gall gynnwys gweithgareddau sy'n cael eu hawgrymu o dan ymgysylltu â'r gymuned.

Yn dilyn, mae trosolwg o'r broses ymgeisio, yn ogystal â'r meini prawf ar gyfer Efydd, Arian ac Aur ar draws y chwe maes. Mae'r rhain yn feini prawf sylfaenol ar gyfer y gwobrau ar bob lefel. Ar unrhyw un adeg, mae'n bosib i ysgol fod yn gweithio ar lefel uwch mewn rhai meysydd o'r fframwaith nag eraill; er enghraifft, mae'n bosib i ysgol ddangos rhai elfennau o feini prawf y wobr Arian wrth wneud cais am wobr Efydd.

Darllenwch y meini prawf yn ofalus i benderfynu pa wobr sydd fwyaf addas i chi. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dechrau gyda'r wobr Efydd, ond mae modd mynd am wobr Arian neu Aur yn syth os ydych chi'n barod.



Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith sy'n cael ei wneud i gyflawni datganiadau o'r hyn sy'n bwysig y Dyniaethau yn gallu cyd-fynd â'r meini prawf.

# MAES 1: Arweinyddiaeth, gweledigaeth a gwerthoedd

**Cwestiynau allweddol:** I ba raddau y mae addysg dinasyddiaeth fyd-eang yn cael ei flaenoriaethu gan arweinwyr ysgolion? Ydyn nhw'n cael eu hadlewyrchu yng ngweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol?

Mae'n rhaid i arweinwyr, athrawon a dysgwyr gydweithio i greu diwylliant o ddinasyddiaeth fyd-eang, ond mae'r graddau y mae'n dwyn ffrwyth ym mywydau dysgwyr yn cyfateb yn agos i raddau cefnogi a hybu gan arweinyddiaeth yr ysgol (yn y cyd-destun hwn, y pennaeth, yr uwch-dîm rheoli a'r llywodraethwyr, gan gydnabod ar yr un pryd nad yw arweinyddiaeth yn gyfyngedig i'r meysydd hyn). Bydd yr adran hon yn cael ei hystyried orau mewn cydweithrediad â'ch pennaeth neu uwch-arweinydd arall yn yr ysgol. Mae cyfeiriad cyffredinol y daith o Efydd i Aur yn symud tuag at ddealltwriaeth gadarn ymhlith arweinwyr ar bob lefel o bwysigrwydd addysg dinasyddiaeth fyd-eang, a'u rôl wrth helpu pobl ifanc i dyfu fel dinasyddion egwyddorol gwybodus sy'n barod i chwarae eu rhan yn y byd.

## Cynnydd

Ar **lefel Efydd**, y gofyniad o'r cychwyn cyntaf yw bod gweledigaeth, nodau a chynllun datblygu'r ysgol yn adlewyrchu'n benodol ymrwymiad i ddinasyddiaeth fyd-eang a thrin pob person ag urddas a pharch, gyda chefnogaeth cynllun gweithredu ar gyfer datblygu hyn ar draws yr ysgol.

Ar **lefel Arian**, bydd tystiolaeth glir o weledigaeth yr ysgol a'i nod o ran dinasyddiaeth fyd-eang yn trosi i ddeilliannau penodol yn yr ysgol a chefnogaeth i staff sy'n datblygu eu hymarfer.

Erbyn i ysgol gyrraedd y **lefel Aur**, bydd yn amlwg i bawb sy'n dod i'r ysgol bod ymrwymiad i ddinasyddiaeth fyd-eang egwyddorol yn treiddio drwy fywyd ac ethos yr ysgol. Bydd yn amlwg bod yr ysgol wedi ymrwymo i fonitro a gwerthuso canlyniadau darpariaeth yr ysgol yn rheolaidd yn y maes hwn, ac yn awyddus i rannu dysgu ac ymarfer gydag ysgolion eraill.



## Achrediad Cymdogion Byd-eang

| Cymorth Cristnogol – Cymdogion Byd-Eang – Gwobr Efydd | Cymorth Cristnogol – Cymdogion Byd-Eang – Gwobr Arian | Cymorth Cristnogol – Cymdogion Byd-Eang – Gwobr Aur |
|---|---|---|
| **Efydd** | **Arian** (gan dybio bod y meini prawf Efydd yn cael eu cyflawni'n barhaus) | **Aur** (gan dybio bod y meini prawf Efydd ac Arian yn cael eu cyflawni'n barhaus) |
| **Mae arweinwyr…** | **Mae arweinwyr…** | **Mae arweinwyr yn sicrhau…** |
| **A** yn sicrhau bod gweledigaeth, nodau a chynllun datblygu'r ysgol yn adlewyrchu'n benodol ymrwymiad i ddinasyddiaeth fyd-eang a thrin pob person ag urddas a pharch<br>**B** yn creu ac ymrwymo i roi cynllun gweithredu ar waith i ymestyn ymgysylltiad â dinasyddiaeth fyd-eang ar draws bywyd yr ysgol.<br>**C** yn gweithio i wreiddio diwylliant o wrth-hiliaeth ledled yr ysgol. Mae hon yn flaenoriaeth hirdymor gyda thystiolaeth ohoni mewn ymrwymiadau penodol yng nghynllun gweithredu Cymdogion Byd-eang a chynlluniau datblygu'r ysgol. | **A** yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i bob dysgwr ddysgu am faterion cyfiawnder byd-eang a'u hystyried, a chymryd rhan mewn dinasyddiaeth fyd-eang weithredol ar draws sawl maes o'r cwricwlwm, a thrwy gydaddoli.<br>**B** yn buddsoddi i ddarparu amser, gofod a chyfleoedd datblygu i staff ddatblygu eu syniadau a'u hymarfer ar ddinasyddiaeth fyd-eang, eiriolaeth a gwrth-hiliaeth. Mae cyfleoedd o'r fath yn cynnig her wirioneddol i ymagweddau at gymorth/datblygu/elusen sy'n atgyfnerthu ystrydebau niweidiol.<br>**C** wedi sefydlu diwylliant o wrth-hiliaeth yn yr ysgol ac wedi cyflwyno ymrwymiadau penodol i gynnal y gwaith hwn. Mae enghreifftiau clir o effaith gadarnhaol hynny ar gymuned yr ysgol.<br>**D** yn sicrhau bod gweledigaeth a nodau'r ysgol mewn perthynas â dinasyddiaeth fyd-eang yn llywio penderfyniadau ar wariant, codi arian, gweithredu cymdeithasol a chysylltiadau ag elusennau a'r gymuned.<br>**E** yn sicrhau diwylliant o gydweithio â sefydliadau eraill sydd ynghlwm wrth y gwaith hwn (e.e. gyda'r eglwys leol, yr esgobaeth neu ysgolion eraill). | **A** sylw systematig i faterion cyfiawnder byd-eang ar draws cwricwlwm yr ysgol gyfan, gyda chynnydd priodol a chyfleoedd addas i gymryd rhan mewn dinasyddiaeth fyd-eang weithredol.<br>**B** bod polisïau'r ysgol a'u gweithrediad yn adlewyrchu gweledigaeth yr ysgol, gan roi ystyriaeth glir i'n cymdogion byd-eang a'r goblygiadau ar gyfer arweinyddiaeth egwyddorol.<br>**C** bod diwylliant cryf a sefydledig o wrth-hiliaeth yn yr ysgol, a bod buddsoddiad yn ei le i ganiatáu i hyn barhau yn y tymor hir. Mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion gwrth-hiliaeth ac maen nhw'n unfryd yn eu hymrwymiad i fod yn ysgol wrth-hiliol.<br>**D** monitro a gwerthuso effaith darpariaeth dinasyddiaeth fyd-eang yr ysgol mewn perthynas â deilliannau dysgu a datblygiad ysbrydol, cymdeithasol, moesol a diwylliannol dysgwyr.<br>**E** cyfleoedd i rannu ymarfer ac ysbrydoliaeth/gweithgareddau gydag ysgolion eraill wrth eu gwahodd i rannu yn y daith ddysgu fyd-eang. |

# MAES 2: Addysgu a dysgu

**Cwestiynau allweddol:** I ba raddau mae'r ysgol yn llwyddo i ddefnyddio cyfleoedd addysgu a dysgu i ymgysylltu â themâu dinasyddiaeth fyd-eang? I ba raddau mae cwricwlwm yr ysgol yn paratoi dysgwyr i gael effaith gadarnhaol ar y byd?

Mae meini prawf achredu Cymdogion Byd-eang yn disgwyl gweld datblygiad ar draws y cwricwlwm llawn yn ystod taith ysgol drwy lefelau'r gwobrau. Fodd bynnag, mae pwyslais ar gyfraniad Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a rôl ffydd. Nid yw hyn yn golygu edrych ar rôl crefydd mewn materion cyfiawnder byd-eang heb gwestiynu. Mae addysg dinasyddiaeth fyd-eang yn dechrau gyda sgiliau, gwerthoedd a chysyniadau sylfaenol (er enghraifft: rhannu, cydweithredu, empathi, parch a gofal am bobl a'r amgylchedd) ym mlynyddoedd cynnar addysg ffurfiol. Efallai na fydd teimlad 'byd-eang' i'r blociau adeiladu hyn yn y Dosbarth Derbyn bob amser, er y dylid eu gosod mewn cyd-destun byd-eang os yw hynny'n briodol). Mae canllaw Oxfam, 'Education for Global Citizenship: A guide for schools' yn cynnwys cwricwlwm defnyddiol ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang sy'n edrych ar ddatblygiad posib yr agweddau hyn o dair oed ymlaen. (Gallwch ei lawrlwytho o: oxfam.org.uk/education).

## Cynnydd

Mae meini prawf achredu yn gallu edrych yn debyg ar draws y categorïau Efydd, Arian ac Aur; fodd bynnag, mae cynnydd yn digwydd yn raddol, o ran hyd, lled a dyfnder.

Ar **lefel Efydd**, mae'r pwyslais ar nodi ac ymgysylltu â themâu dinasyddiaeth fyd-eang a dysgu am ystod o ymatebion.

Ar **lefel Arian**, dylai fod cynnydd amlwg yn ehangder a dyfnder yr ymgysylltiad o'i gymharu â'r lefel Efydd. Bydd addysgu a dysgu yn adlewyrchu cymhlethdod materion cyfiawnder byd-eang a bydd yn annog myfyrio beirniadol ar ffyrdd o ymateb i broblemau sy'n wynebu'r byd.

Ar **lefel Aur**, bydd aseswyr yn disgwyl gweld darpariaeth systematig ar draws hyd a lled y cwricwlwm a grwpiau blwyddyn, gyda chynnydd priodol, a thystiolaeth o fwy o feddwl beirniadol mewn perthynas â'r syniadau a'r safbwyntiau allweddol.






## Achrediad Cymdogion Byd-eang

| Efydd | Arian<br>(gan dybio bod y meini prawf Efydd yn cael eu cyflawni'n barhaus) | Aur<br>(gan dybio bod y meini prawf Efydd ac Arian yn cael eu cyflawni'n barhaus) |
|---|---|---|
| **Yn y cwricwlwm, mae dysgwyr yn cael cyfleoedd priodol i oedran/cyfnod i ddechrau…** | **Yn y cwricwlwm, ar lefel briodol i oedran/cyfnod, bydd dysgwyr yn…** | **Yn y cwricwlwm, ar lefel briodol i oedran/cyfnod, bydd dysgwyr yn…** |
| **A** archwilio tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng eu bywydau a bywydau pobl mewn gwahanol gymunedau yn lleol, yn genedlaethol ac ar draws y byd. | **A** esbonio sut mae eu bywydau yn gysylltiedig â phobl a llefydd yn lleol, yn genedlaethol ac ar draws y byd, yn ogystal ag egluro effeithiau gweithredoedd lleol ar y byd ehangach. | **A** holi nifer o 'gwestiynau mawr' am ddioddefaint, anghydraddoldeb a chyfiawnder mewn perthynas â materion cyfiawnder byd-eang a'r hinsawdd, ac yn archwilio atebion posib. |
| **B** nodi rhai ffyrdd y mae eu bywydau yn gysylltiedig â bywydau pobl yn eu hardal, yng Nghymru ac yn y byd ehangach. | **B** gofyn ac archwilio 'cwestiynau mawr' am ddioddefaint, anghydraddoldeb a chyfiawnder, gan gyfeirio at faterion cyfiawnder byd-eang a hinsawdd penodol. | **B** ymgysylltu'n ystyriol ag ystod amrywiol o leisiau a straeon, yn enwedig gan bobl a chymunedau sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan dlodi byd-eang ac anghyfiawnder hinsawdd. |
| **C** archwilio 'cwestiynau mawr' am ddioddefaint, anghydraddoldeb a chyfiawnder. | **C** trafod a datblygu dealltwriaeth o natur, achosion ac effeithiau tlodi byd-eang ac anghyfiawnder hinsawdd. | **C** meddwl yn feirniadol am achosion ac effeithiau tlodi byd-eang ac anghyfiawnder hinsawdd – a sut i'w datrys. |
| **D** trafod cysyniadau a materion tlodi byd-eang a chyfiawnder hinsawdd. | **D** ymgysylltu â lleisiau a straeon sy'n helpu i ddirnad tlodi byd-eang ac anghyfiawnder hinsawdd, yn enwedig gan bobl a chymunedau sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol. | **D** pwyso ar ddysgeidiaeth Feiblaidd a moesegol wrth ymdrin â materion tlodi, anghydraddoldeb, elusen a chyfiawnder. |
| **E** dod ar draws lleisiau a straeon perthnasol sy'n helpu i ddirnad tlodi byd-eang ac anghyfiawnder hinsawdd. | **E** archwilio safbwyntiau Cristnogol ar dlodi, anfantais ac anghyfiawnder. | **E** archwilio safbwyntiau dwy grefydd/dau fydolwg* ar faterion tlodi, anghydraddoldeb, elusen a chyfiawnder. |
| **F** nodi dysgeidiaeth Gristnogol allweddol sy'n ysbrydoli Cristnogion i fynd i'r afael â thlodi ac anghyfiawnder. | **F** esbonio gwerthoedd Cristnogol allweddol a dysgeidiaeth Feiblaidd sy'n ysbrydoli Cristnogion i fynd i'r afael â thlodi byd-eang ac anghyfiawnder hinsawdd. | |

*Mae bydolwg yn y Cwricwlwm i Gymru yn ymwneud ag argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol.

**Meini Prawf Cymdogion Byd-eang**

# MAES 3: Cydaddoli

**Cwestiwn allweddol:** I ba raddau mae'r ysgol yn llwyddo i roi cyfle i ddysgwyr ystyried themâu dinasyddiaeth fyd-eang wrth gydaddoli?

Bydd arferion gorau yn ymwneud â chreu cysylltiadau penodol rhwng materion cyfiawnder byd-eang a gwerthoedd yr ysgol. Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ymgysylltu â themâu byd-eang fel anghyfiawnder a thlodi yn ystod cydaddoli drwy gydol y flwyddyn ysgol, yn hytrach nag yn ystod un tymor yn unig, fel bod eu hymwybyddiaeth o faterion cyfiawnder byd-eang yn datblygu dros amser. Yn ogystal â defnyddio dyddiadau rheolaidd yn y calendr (mae enghreifftiau yn y llawlyfr Cymdogion Byd-eang), dylai ysgolion ymateb i faterion cyfoes a digwyddiadau sydyn, gan gofio am y rhai hynny nad ydyn nhw'n ennyn llawer o sylw yn y cyfryngau. Fwy a mwy, dylai dysgwyr berchnogi cynllunio ac arwain cydaddoli.

## Cynnydd

Er mwyn bodloni'r meini prawf **Efydd**, dylai fod yn amlwg bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd i ymgysylltu â'r themâu a'r syniadau hyn yng nghyd-destun cydaddoli, a hynny o leiaf bob tymor.

Ar **lefel Arian**, mae angen enghreifftiau clir ac amlwg o sut mae cydaddoli law yn llaw â themâu dinasyddiaeth fyd-eang wedi ysbrydoli gweithredu. Bydd y themâu yn cynnwys mwy o gysondeb o'i gymharu â'r lefel Efydd, a bydd dysgwyr yn rhan o'r gwaith cynllunio.

Ar **lefel Aur**, dylai fod perthynas naturiol rhwng gwerthoedd yr ysgol, cydaddoli a themâu dinasyddiaeth fyd-eang. Bydd y meini prawf ar gyfer y lefel Arian wedi gwreiddio'n llawn. Mae cynllunio ar gyfer cydaddoli yn galluogi ac yn cynnwys arweinyddiaeth gan fyfyrwyr, ac yn rhoi gwerth uchel ar lais y dysgwr.







| Efydd | Arian (gan dybio bod y meini prawf Efydd yn cael eu cyflawni'n barhaus) | Aur (gan dybio bod y meini prawf Efydd ac Arian yn cael eu cyflawni'n barhaus) |
|---|---|---|
| **Mae pob dysgwr yn cael cyfleoedd priodol i oedran/cyfnod...** | **Ar lefel briodol i oedran/cyfnod, bydd pob dysgwr yn aml yn...** | **Ar lefel briodol i oedran/cyfnod, bydd pob dysgwr yn aml yn...** |
| **A** i fyfyrio ar faterion tlodi byd-eang a chyfiawnder hinsawdd ar rai achlysuron yn ystod y flwyddyn academaidd. | **A** ystyried materion cyfiawnder byd-eang ac ymateb iddyn nhw yn ystod cydaddoli neu gyfnodau gweddïo a myfyrio eraill.<br>**B** cyfrannu at gynllunio cydaddoli sy'n ymwneud â materion cyfiawnder byd-eang. | **A** ystyried materion cyfiawnder byd-eang, ac ymateb iddyn nhw yn ystod cyfnodau gweddïo a myfyrio, a llunio eu gweddïau/ymatebion eu hunain ar faterion tlodi, anghyfiawnder a'u rôl fel cyfryngau newid.<br>**B** cymryd cyfrifoldeb sylweddol dros gynllunio ac arwain cydaddoli yn ymwneud â materion cyfiawnder byd-eang. |

**Meini Prawf Cymdogion Byd-eang**

# MAES 4: Datblygiad ysbrydol

**Cwestiwn allweddol:** I ba raddau mae’r ysgol yn llwyddo i roi cyfle i ddysgwyr ystyried themâu dinasyddiaeth fyd-eang mewn perthynas â’u datblygiad ysbrydol eu hunain?

Mae’r pwyslais yn yr adran hon ar ddatblygiad ysbrydol: i ba raddau mae ysgolion yn llwyddo i roi cyfle i ddysgwyr ymgysylltu â materion cyfiawnder byd-eang ar lefel ddyfnach, y tu hwnt i addysgu a dysgu ffurfiol. Dylai dysgwyr o bob ffydd a’r rhai heb unrhyw ffydd gael cyfle i ystyried a mynegi eu hymateb emosiynol i faterion tlodi byd-eang a chyfiawnder hinsawdd. Y tu hwnt i ddysgu am faterion cyfiawnder byd-eang yn unig, mae angen rhoi cyfle iddyn nhw ystyried sut mae’r materion hyn yn ymwneud â’u dirnadaeth o’u hunain, y byd o’u cwmpas ac (i rai) eu ffydd grefyddol. Dylai ymgysylltu â materion o’r fath ar lefel ddwys ysbrydoli gweithredu yn naturiol.

## Cynnydd

Er mwyn bodloni’r **meini prawf Efydd**, dylai fod yn amlwg bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd i ymgysylltu â’r themâu a’r syniadau hyn o leiaf bob tymor.

Ar **lefel Arian**, dylai fod enghreifftiau clir ac amlwg o sut mae ymgysylltu ysbrydol â themâu dinasyddiaeth fyd-eang wedi ysbrydoli gweithredu. Bydd y themâu yn codi yn gynyddol gyson o’i gymharu â’r lefel Efydd.

Ar **lefel Aur**, dylai fod perthynas naturiol rhwng gwerthoedd yr ysgol, cyfleoedd am ddatblygiad ysbrydol a themâu dinasyddiaeth fyd-eang. Bydd y meini prawf ar gyfer y lefel Arian wedi gwreiddio’n llawn a bydd dysgwyr yn gallu mynegi sut mae eu profiad o’r ysgol yn eu hysbrydoli a’u cefnogi i herio anghyfiawnder a thlodi.

Mae dysgwyr Cyfnod Sylfaen yn Ysgol y Wig a Marcroes yn myfyrio ar eu gwerthoedd a’u hymddygiad eu hunain.






# Achrediad Cymdogion Byd-eang

| Efydd | Arian (gan dybio bod y meini prawf Efydd yn cael eu cyflawni’n barhaus) | Aur (gan dybio bod y meini prawf Efydd ac Arian yn cael eu cyflawni’n barhaus) |
|---|---|---|
| **Mae pob dysgwr yn cael cyfleoedd priodol i oedran/cyfnod…** | **Ar lefel briodol i oedran/cyfnod, bydd pob dysgwr yn aml yn…** | **Ar lefel briodol i oedran/cyfnod, bydd pob dysgwr yn aml yn…** |
| **A** i fyfyrio ar eu hymddygiad, eu gwerthoedd a’u hagweddau tuag at faterion yn ymwneud â thlodi byd-eang a chyfiawnder hinsawdd.<br>**B** i ddysgu pwysigrwydd ystyried, gwerthfawrogi a thrin pawb ag urddas a pharch. | **A** myfyrio ar berthnasedd ffydd ym mywydau pobl ac ystyried ei heffaith ar fywydau credinwyr o ran anghyfiawnder.<br>**B** myfyrio ar eu hymddygiad, eu gwerthoedd a’u hagweddau tuag at faterion yn ymwneud â thlodi byd-eang a chyfiawnder hinsawdd, ac ystyried newidiadau posib o ganlyniad i hynny. | **A** annog ac ysbrydoli ei gilydd i herio anghyfiawnder ac anghydraddoldeb, gan arwain ei gilydd mewn dinasyddiaeth egwyddorol a gweithredu cymdeithasol. |

# MAES 5: Cyfranogiad dysgwyr mewn dinasyddiaeth fyd-eang weithredol

**Cwestiwn allweddol:** Ydy dysgwyr yn gallu gweithredu ar sail yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu a'i roi ar waith?

Pan fydd pobl ifanc yn dysgu am faterion anghyfiawnder, mae'n naturiol eu bod am weithredu i newid pethau, ac mae'n bwysig eu cefnogi nhw i gael trefn ar hynny yn ymarferol. Efallai bod cyfleoedd i weithredu ar faterion cyfiawnder byd-eang yn ymddangos yn gyfyngedig, ond mae'r dywediad 'meddwl yn fyd-eang, gweithredu'n lleol' yn helpu i ddangos y cysylltiad rhwng gweithredu lleol a materion cyfiawnder byd-eang. Er enghraifft, mae gwneud rhywbeth yn lleol i leihau allyriadau carbon yn gallu bod yn weithred o ddinasyddiaeth fyd-eang os yw'n ganlyniad i ddysgu am effaith yr argyfwng hinsawdd ar gymunedau mwyaf bregus y byd.

Yn yr adran hon, rydyn ni'n chwilio am enghreifftiau *o ddysgwyr yn gweithredu o ganlyniad i'w dysgu*. Bydd yr enghreifftiau gorau yn cael eu harwain gan ddysgwyr, ac yn ymwneud â nhw'n gwneud dewisiadau gweithredol am yr ymateb mwyaf priodol i'r materion maen nhw wedi dysgu amdanynt, naill ai yn y cwricwlwm neu wrth gydaddoli. Bydd yr enghreifftiau gorau yn dangos bod gan yr ysgol ddealltwriaeth gadarn o'r gwahaniaeth rhwng elusen a bod yn gyfryngau newid (mae mwy am hyn yn yr adran 'Gwaith Darllen Pwysig'). Bydd aseswyr yn chwilio am ystod eang o gyfranogiad (heb fod yn gyfyngedig i'r hynaf/mwyaf galluog/breintiedig). Os oes gennych unrhyw amheuon ynghylch addasrwydd eich dysgwyr yn ymwneud â gweithredu gwleidyddol, neu bynciau a allai gael eu hystyried yn wleidyddol, darllenwch ein canllawiau ar 'Ymwneud gwleidyddol a bod yn ddiduedd' ar dudalen 28.

## Cynnydd

Mae cyfeiriad cyffredinol y daith o lefel Efydd i lefel Aur yn un o ymgysylltu helaeth a dwys ar draws yr ysgol, gyda meini prawf yn adlewyrchu cyfranogiad cynyddol, perchnogi, arweinyddiaeth, meddwl beirniadol a myfyrio ar ran y dysgwyr.

Ar **lefel Efydd**, bydd tystiolaeth bod rhai dysgwyr yn cymryd rhan weithredol mewn prosiectau a gweithgareddau sy'n cyfuno dysgu, gwneud penderfyniadau a gweithredu yn ystod y flwyddyn ysgol. Mae hyn yn golygu y bydd pob dysgwr yn cael cyfleoedd o'r fath wrth symud drwy'r ysgol, er nad ydyn nhw'n ymddangos yn amlwg eto mewn mwy nag un neu ddau grŵp blwyddyn.

Ar **lefel Arian**, bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn prosiectau neu weithgareddau sy'n eu cynnwys mewn dysgu a gweithredu ar ryw adeg yn ystod blwyddyn ysgol. Bydd y rhain fel arfer yn ymwneud â dysgwyr yn cynllunio camau gweithredu mewn perthynas â'u dealltwriaeth o achosion ac effeithiau'r materion maen nhw'n mynd i'r afael â nhw, ac yna'n ystyried ystod o opsiynau. Bydd y dull hwn yn amlwg fel thema sy'n codi'n gyson drwy daith y rhan fwyaf o ddysgwyr drwy'r ysgol.

Ar **lefel Aur**, bydd pob dysgwr yn cael cyfleoedd priodol i oedran/cyfnod i weithredu ar sail eu dysgu yn ystod y flwyddyn ysgol. Bydd tystiolaeth bod dysgwyr yn sbarduno gweithgareddau ac yn rhannu cyfrifoldeb ag eraill am drefnu eu rhoi ar waith, yn ogystal â gwerthuso eu gweithredoedd a'u dysgu.

| Efydd | Arian (gan dybio bod y meini prawf Efydd yn cael eu cyflawni'n barhaus) | Aur (gan dybio bod y meini prawf Efydd ac Arian yn cael eu cyflawni'n barhaus) |
|---|---|---|
| **Mae dysgwyr yn cael cyfleoedd priodol i oedran...** | **Ar lefel briodol i oedran, bydd dysgwyr yn...** | **Ar lefel briodol i oedran, bydd dysgwyr yn...** |
| **A** i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â materion tlodi byd-eang a chyfiawnder hinsawdd.<br>**B** i weithredu o ganlyniad i ddysgwyr yn dysgu am themâu dinasyddiaeth fyd-eang. Y dysgwyr sy'n penderfynu sut i ymateb, ar ôl gwerthuso gwahanol opsiynau. | **A** ymchwilio i achosion ac effeithiau'r sefyllfa sydd dan sylw ganddyn nhw, ac egluro sut mae'n atal pobl rhag byw bywyd llawn.<br>**B** gwneud penderfyniadau ynghylch sut i weithredu, ar ôl archwilio ymatebion posib sy'n mynd y tu hwnt i ymdeimlad o dosturi ac yn esgor ar awydd am gyfiawnder.<br>**C** chwarae rhan weithredol i gynllunio a gweithredu yn erbyn tlodi a thros fyd mwy cyfiawn a chynaliadwy – a gallu egluro pam mae'r camau hyn yn bwysig. | **A** herio ac yn wynebu anghyfiawnder ac anghydraddoldeb yn hyderus fel eiriolwyr llafar dros newid.<br>**B** gwneud penderfyniadau am gamau gweithredu priodol ar ôl dysgu am fater a gwerthuso'n feirniadol yr opsiynau ar gyfer ymateb.<br>**C** rhannu'r cyfrifoldeb dros gynllunio a rhoi ar waith weithgareddau sy'n ymwneud â gweithredu yn erbyn tlodi a thros fyd mwy cyfiawn a chynaliadwy.<br>**D** gwerthuso effeithiolrwydd y gweithredu a myfyrio ar y sgiliau a'r ddirnadaeth a gafodd eu meithrin ganddyn nhw. |



Mae dewis pa weithgareddau i gyfranogi ynddyn nhw fel ymateb i'w dysgu yn rhan bwysig o dwys dysgwyr i ddod yn ddinasyddion egwyddorol gwybodus yng Nghymru a'r byd.

# MAES 6: Ymgysylltu â'r gymuned

**Cwestiwn allweddol:** I ba raddau mae dysgwyr yn cael eu grymuso i ymgysylltu â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn eu cymunedau, a rhannu eu dysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang, a gweithredu yn ei sgil, y tu hwnt i gatiau'r ysgol?

Mae bod yn ddinesydd byd-eang yn ymwneud ag archwilio ein cysylltedd a'n perthynas ag eraill – yn lleol yn ein cynefin, yng Nghymru a'r byd ehangach. Mae'n ymwneud cymaint â chwarae rhan lawn yn eich cymuned eich hun ag y mae'n ymwneud â chydnabod perthnasoedd a chyfrifoldebau rhywun ar lefelau cenedlaethol a byd-eang hefyd.

Mae'n bwysig helpu dysgwyr i sylweddoli bod modd iddyn nhw fod yn rhan o fudiad ehangach dros newid yn ein byd, a bod newid yn digwydd pan fydd pobl yn ymuno â'i gilydd i gefnogi achos cyffredin – weithiau drwy ffyrdd a phartneriaethau annhebygol.

Ni ddylid ystyried bod cyflawni'r meini prawf ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned ar wahân, nac o reidrwydd yn ychwanegol, i weithio ar adrannau eraill. Dylai ymgysylltu â'r gymuned fod yn rhan annatod o addysgu a dysgu, cydaddoli a chyfranogiad dysgwyr mewn dinasyddiaeth fyd-eang weithredol (mae'n bosib bod rhai enghreifftiau yn berthnasol i fwy nag un maes). Mae ymgysylltu â'r gymuned yn gweithio'r ddwy ffordd: bydd dysgwyr yn dysgu oddi wrth y gymuned y tu hwnt i gatiau'r ysgol, ac yn rhannu'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu â'r gymuned. Ar ei orau, bydd ymgysylltu â'r gymuned leol yn cael ei nodweddu gan ddysgwyr yn eiriolwyr gweithredol dros newid, gyda dealltwriaeth gadarn o'r cysylltiad rhwng cymunedau lleol a'r gymuned fyd-eang.

## Cynnydd

Ar **lefel Efydd**, bydd ymgysylltu â'r gymuned yn ystyrlon, ond gall fod ychydig yn gyfyngedig (e.e. dim ond yn cynnwys grwpiau blwyddyn penodol). Mae'n debygol y bydd cyfranogiad staff yn fwy nag ar lefel Arian neu Aur, ond mae dal angen annog myfyrwyr i gymryd yr awenau. Gallai enghreifftiau ar lefel Efydd gynnwys grwpiau dosbarth neu grwpiau blwyddyn sy'n cynllunio gweithgaredd ar y cyd o ganlyniad i'w dysgu. Gall enghreifftiau o ymgysylltu â'r gymuned fod yn fentrau cymharol newydd sydd heb wreiddio'n llawn eto.

Ar **lefel Arian**, bydd aseswyr yn disgwyl gweld enghreifftiau mwy helaeth o ymgysylltu â'r gymuned o'i gymharu â'r lefel Efydd. Bydd disgwyl i ysgolion ddangos defnydd cadarn o gysylltiadau cymunedol ac ymwelwyr i gefnogi a chyfoethogi ymgysylltiad dysgwyr â themâu a materion dinasyddiaeth fyd-eang, gan ganolbwyntio ar helpu dysgwyr i ymgysylltu â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau (cynghorwyr, Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol lleol, arweinwyr eglwysi lleol neu lywodraethwyr eu hysgol) mewn ffyrdd syml. Bydd tystiolaeth glir bod mwyafrif o ddysgwyr yr ysgol yn ymwneud yn ystyrlon â'r cysylltiadau a'r cyfleoedd hyn bob blwyddyn.


Ar **lefel Aur**, bydd ymgysylltu â'r gymuned yn gyson, yn ystyrlon ac yn gyfoethog, i'r dysgwyr ac i'r cymunedau maen nhw'n rhan ohonyn nhw. Bydd aseswyr yn disgwyl gweld tystiolaeth o'r ystod lawn o'r cyfleoedd sy'n cael eu nodi yn y meini prawf Aur ym mywyd yr ysgol, gyda phob dysgwr yn cael cyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan yn un neu fwy o'r cyfleoedd hyn.




Mae ymgysylltu â phobl sy'n gwneud penderfyniadau yn lleol, arweinwyr eglwysi ac aelodau eraill o'u cymuned yn helpu i atgyfnerthu pwysigrwydd eu dysgu ac yn cynyddu hyder dysgwyr.



| **Efydd** | **Arian** (gan dybio bod y meini prawf Efydd yn cael eu cyflawni'n barhaus) | **Aur** (gan dybio bod y meini prawf Efydd ac Arian yn cael eu cyflawni'n barhaus) |
|---|---|---|
| **Mae pob dysgwr yn cael cyfleoedd priodol i oedran/cyfnod...** | **Ar lefel briodol i oedran/cyfnod, bydd pob dysgwr yn aml yn...** | **Ar lefel briodol i oedran/cyfnod, bydd pob dysgwr yn aml yn...** |
| **A** i ddechrau sôn am eu pryderon a'u syniadau mewn perthynas â materion tlodi byd-eang a chyfiawnder hinsawdd gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn eu cynefin, yng Nghymru neu'r byd ehangach.<br>**B** i rannu eu dysgu a'u gweithredu mewn dinasyddiaeth fyd-eang gyda chymuned ehangach yr ysgol, gan gynnwys rhieni/gofalwyr. | **A** ymgysylltu â safbwyntiau newydd ar faterion cyfiawnder byd-eang drwy ddefnyddio ymwelwyr a chysylltiadau cymunedol (e.e. asiantaethau datblygu rhyngwladol, cynrychiolwyr eglwysig, cysylltiadau cydymaith esgobaethol, cysylltiadau ysgolion eraill neu gymunedau alltud).<br>**B** gweithio gydag eglwys, grŵp cymunedol neu sefydliad rhyngwladol i hybu ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud ag anghyfiawnder byd-eang a gweithredu gyda'i gilydd mewn ffyrdd sy'n ennyn diddordeb yr ysgol gyfan, rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach.<br>**C** annog eraill yn eu cymuned (teulu, ysgol, cymdogaeth, ardal) i feddwl yn fyd-eang ac ystyried sut mae ein ffordd o fyw a'n gweithredoedd yn gallu effeithio ar ein cymdogion byd-eang er gwell neu er gwaeth. | **A** datblygu eu sgiliau eiriolaeth drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau (e.e. cynrychiolwyr gwleidyddol, arweinwyr busnes, llywodraethwyr ysgolion ac arweinwyr ffydd).<br>**B** dwysáu eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang a materion cyfiawnder byd-eang a gwaith pobl â ffydd yn y maes hwn drwy ddefnydd parhaus ac effeithiol o ymwelwyr a chysylltiadau cymunedol (e.e. asiantaethau datblygu, cynrychiolwyr eglwysig, cysylltiadau cydymaith esgobaethol, cysylltiadau ysgolion eraill neu gymunedau alltud).<br>**C** cymryd rhan mewn cysylltiadau partneriaeth byd-eang sy'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall gydag ysgolion/cymunedau mewn gwahanol rannau o'r byd. |



# 3 Gwaith darllen pwysig

Mae'r tudalennau canlynol yn amlinellu rhai egwyddorion pwysig sy'n sail i wobr Cymdogion Byd-eang.





## Terminoleg

Hwyrach eich bod chi'n gyfarwydd â'r ymadroddion dinasyddiaeth fyd-eang, dysgu byd-eang, addysg fyd-eang neu addysg datblygu, sydd i gyd yn ymwneud â materion cyfiawnder cymdeithasol a chynaliadwyedd. Yn nhîm ysgolion Cymorth Cristnogol, rydyn ni'n ffafrio'r ymadrodd 'dinasyddiaeth fyd-eang'. Rydyn ni'n mabwysiadu ymagwedd at addysg sy'n ymgorffori ethos o weithredu, herio anghyfiawnder a dod yn gyfryngau newid wrth drawsnewid ein hunain, ein perthnasoedd a'n cymunedau o'r lefel leol i'r lefel fyd-eang.

Rydyn ni'n defnyddio'r ymadrodd 'themâu dinasyddiaeth fyd-eang' i gyfeirio at faterion tlodi byd-eang, anghyfiawnder ac ecsbloetio'r byd naturiol. Mae deall ein hunain fel dinasyddion byd-eang yn golygu cydnabod bod cysylltiad rhwng y materion hyn, a bod ein bywydau yn sylfaenol gysylltiedig â bywydau pobl eraill ledled y byd.

## Osgoi ystrydebau a sicrhau'r cydbwysedd cywir

Yn 2020, penderfynodd Comic Relief roi'r gorau i anfon enwogion i wledydd Affrica, gan ofyn i wneuthurwyr ffilmiau lleol gynhyrchu eu hymgyrchoedd codi arian eu hunain yn lle hynny. Roedd hwn yn benderfyniad arwyddocaol a oedd yn cydnabod natur broblemus a dadrymusol caniatáu i'r ystrydebau o 'ddioddefwr' a 'gwaredwr' barhau. Mae ystrydebau o'r fath yn ddi-fudd oherwydd eu bod yn aml yn diffinio pobl ar sail eu tlodi yn unig, gan annog trueni yn hytrach na chyd-ddealltwriaeth o'n dynoliaeth gyffredin ac yn aml maen nhw wedi eu gwreiddio yn agweddau gwaethaf ein gorffennol trefedigaethol. Mae Cymorth Cristnogol yn cydnabod bod asiantaethau cymorth eu hunain weithiau wedi cynnal yr ystrydebau hyn a bod gan y sector datblygu rhyngwladol gyfrifoldeb i fynd i'r afael â hyn. Ar yr un pryd, rydyn ni'n cydnabod bod gan wledydd cyfoethog fel y DU rym ac adnoddau sylweddol, a bod cyfrifoldeb moesol arnom i'w defnyddio i helpu'r rhai mewn angen. O ganlyniad, mae angen sicrhau cydbwysedd priodol a gofalus.

Yn yr ysgol, bydd yr addysg dinasyddiaeth fyd-eang orau yn pwysleisio natur gysylltiedig ein byd, a'n dynoliaeth gyffredin. Bydd yn osgoi cyffredinoli syml a di-fudd sy'n atgyfnerthu'r anghydbwysedd grym sy'n bodoli yn y byd. Yn hytrach, bydd addysg dinasyddiaeth fyd-eang gadarn yn grymuso pobl ifanc i ddefnyddio eu llais fel eiriolwyr dros newid, gan godi llais ar y cyd â'r rhai sy'n profi anghyfiawnder ac ar eu rhan. Bydd yn cydnabod ein cyfrifoldeb moesol i ddefnyddio'r grym a'r adnoddau sydd gennym yn y ffordd gywir, gan gydnabod sut y gall ein bwriadau gorau achosi niwed.

## Pwysigrwydd gwrth-hiliaeth

Nid yw'n bosib gwahanu'r ystrydebau uchod oddi wrth ddealltwriaeth o fynychder hiliaeth, boed hynny'n weithredoedd penodol o hiliaeth neu'r agweddau mwy cynnil ar hiliaeth sy'n bodoli o fewn systemau a strwythurau ein cymdeithas. Dylai ysgol Cymdogion Byd-eang nid yn unig fod yn *anhiliol* ond yn weithredol *wrth-hiliol*. Mae hyn yn dechrau gydag ymrwymiad gan arweinyddiaeth yr ysgol i flaenoriaethu dysgu gwrth-hiliol ymhlith staff, fel bod addysg (beth bynnag yw cyd-destun yr ysgol) yn hyrwyddo urddas a thegwch i bawb. Fel tlodi, mae hiliaeth yn dwyn urddas, grym a llais pobl. Mae'n amhosib gwahanu ei wreiddiau oddi wrth agweddau gwaethaf ein gorffennol trefedigaethol ac felly dylai gael ei ystyried yn briodol mewn perthynas ag addysg dinasyddiaeth fyd-eang.

Ar lefel Efydd, rydyn ni'n disgwyl gweld ymrwymiad i fynd ar y daith honno, ynghyd ag arwydd yn y cynllun gweithredu (isod) o sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni. Ar lefel Arian ac Aur, y disgwyl yw y bydd ysgolion wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth wreiddio dealltwriaeth o wrth-hiliaeth ymhlith staff a dysgwyr, a bod hynny'n cael effaith amlwg ar ddiwylliant ac ymarfer yr ysgol. Mae'r maen prawf cyntaf ar gyfer y wobr Efydd yn cynnwys ymrwymiad i drin pawb ag urddas a pharch. Mae gwrth-hiliaeth ymhlyg yn hyn, yn ogystal â phwysigrwydd gweld pawb o werth cyfartal waeth beth fo'u rhywioldeb, rhywedd a hunaniaeth rhywedd, eu gallu a nodweddion gwarchodedig eraill.

Rydyn ni'n cydnabod bod symud tuag at fod yn ysgol wirioneddol wrth-hiliol yn siwrnai; mae'n cymryd amser a rhaid wrth gefnogaeth. Mae gwefan Cymdogion Byd-eang yn cynnwys rhagor o wybodaeth, dolenni ac arweiniad i'ch helpu i ddatblygu eich ymarfer.

Dylai ysgol Cymdogion Byd-eang nid yn unig fod yn *anhiliol* ond yn weithredol *wrth-hiliol*.




## Cyfiawnder hinsawdd

Heb os, newid hinsawdd yw un o'r heriau mwyaf y mae ein byd yn ei wynebu ar hyn o bryd. Mae meini prawf Cymdogion Byd-eang yn ffafrio'r ymadrodd 'cyfiawnder hinsawdd' dros 'newid hinsawdd'. Mae hyn oherwydd bod yr ymadrodd 'newid hinsawdd' ynddo'i hun yn un niwtral, sydd ddim yn cyfleu'r ffaith fod yr argyfwng sy'n wynebu ein byd yn fater o gyfiawnder. Ar y cyfan, y rhai sy'n dioddef effaith fwyaf newid hinsawdd yw'r rhai sydd wedi gwneud y lleiaf i gyfrannu ato; mae hyn yn sylfaenol anghyfiawn. Yn aml, y cymunedau sydd fwyaf tebygol o ddioddef sychder a llifogydd yw'r rhai sydd â'r lleiaf o adnoddau i ymdopi. Bydd addysg dinasyddiaeth fyd-eang dda yn helpu dysgwyr i nodi'r cysylltiad rhwng tlodi byd-eang a chyfiawnder hinsawdd, ac i gydnabod rôl eiriolaeth wrth ymateb i'r ddau. Mae 'cyfiawnder hinsawdd' hefyd yn awgrymu bod ecsbloetio'r byd naturiol yn fater cyfiawnder ynddo'i hun.

## Osgoi 'eco-bryder'

Efallai eich bod chi wedi clywed yr ymadroddion 'trychineb hinsawdd' ac 'argyfwng hinsawdd'. Gallant fod o gymorth mewn ambell gyd-destun gan eu bod yn mynegi natur argyfyngus y sefyllfa a'r angen i weithredu, ond rydyn ni'n cynghori ysgolion i fod yn ofalus iawn ynghylch defnyddio'r ymadroddion hyn gyda dysgwyr. Wrth drafod hinsawdd gyda phobl ifanc, mae'n bwysig iawn cofio bod y pwnc hwn yn gallu achosi straen a phryder sylweddol. Mae angen sicrhau cydbwysedd gofalus rhwng addysgu gyda gonestrwydd am ddifrifoldeb y sefyllfa, a pheidio â gorlwytho dysgwyr ag ymdeimlad o gyfrifoldeb neu ofn ar yr un pryd; o'r herwydd, rydyn ni hefyd yn osgoi cyfeiriadaeth at negeseuon fel 'achub y blaned'. Mae'n amhosib i unrhyw un ddatrys problemau'r byd ar ei ben ei hun, ac ni ddylai pobl ifanc deimlo bod yn rhaid iddyn nhw ysgwyddo holl faich y cyfrifoldeb hwnnw.

Yn hytrach, bydd addysg dinasyddiaeth fyd-eang gadarn yn mabwysiadu agwedd gadarnhaol, gan bwysleisio pwysigrwydd cydweithio tuag at nod cyffredin. Bydd yn helpu dysgwyr i ddeall eu bod nhw'n gallu cael effaith gadarnhaol ar y byd drwy chwarae eu rhan fach eu hunain yn eu cymuned, a thrwy godi llais fel eiriolwyr dros newid. Nid oes angen iddyn nhw ddatrys y broblem hon eu hunain – yn wir, byddai hynny'n amhosib – ond mae modd iddyn nhw gyfrannu at y criw enfawr o bobl sy'n gweithio ledled y byd i ddelio â hi, ym mhob agwedd ar fywyd.



## Ymwneud gwleidyddol a bod yn ddiduedd

Mae'n bwysig bod ysgolion yn ymwybodol o'r angen i fod yn ddiduedd yn wleidyddol. Nid yw hyn yn golygu na all eich dysgwyr – neu na ddylai eich dysgwyr – ymgysylltu â gwleidyddion a phobl eraill sy'n gwneud penderfyniadau. Neu y dylech chi osgoi trafod unrhyw faterion sydd ag agweddau gwleidyddol. Yn y pen draw, mae gan bob mater pwysig *rai* agweddau gwleidyddol – a rhan ganolog o addysg plentyn yw deall y materion allweddol sydd ar waith yn ein byd a'u hawliau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r rhain. Wedi'r cyfan, rydyn ni'n ceisio datblygu dinasyddion egwyddorol gwybodus!

Fodd bynnag, mae'n bwysig cyflwyno amrywiaeth gytbwys o safbwyntiau lle bo hynny'n briodol, gan nodi nad oes rhaid i chi bwyso ar gywerthedd ffug neu geisio 'cydbwyso' pob safbwynt posib (e.e. mae'n gwbl dderbyniol cyflwyno newid hinsawdd fel ffaith, heb roi sylw i bobl sy'n gwadu newid hinsawdd a gwrthod gwyddoniaeth gadarn). Un rheol fuddiol yw ystyried: a oes mwy nag un safbwynt cyffredin am hyn, ac a yw'n bwysig i'r dysgwyr ddeall hynny?

Mae hefyd yn bwysig iawn i chi fod yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn lluosogaethol yn eich addysgu. Gallwch yn sicr annog eich dysgwyr i ymgysylltu â'u gwleidyddion lleol a chenedlaethol ac mae llawer iawn o'n hysgolion Cymdogion Byd-eang wedi gwneud hynny'n effeithiol iawn. Gall deall bod y bobl sy'n gwneud penderfyniadau yn atebol i'w hetholwyr – gan gynnwys pobl ifanc – a'i bod yn bosib i ni i gyd geisio dylanwadu ar safbwyntiau a phenderfyniadau gwleidyddion ar faterion penodol fod yn agwedd hynod rymus a phwysig ar lythrennedd gwleidyddol. Gall profi'r rhyngweithio gwleidyddol hwnnw yn uniongyrchol drwy'r ysgol gynnig newid go iawn o ran sut mae dysgwyr yn gweld eu hunain yn y byd a thrawsnewid eu dealltwriaeth o'u perthynas eu hunain â grym a gwneud penderfyniadau. Yr hyn sy'n bwysig i ni yw mae safbwyntiau gwybodus y dysgwyr sy'n cael eu cyfleu bob amser – ni ddylai plant fyth gael eu defnyddio fel cyfrwng i gyfleu safbwynt rhywun arall.




Mae ymwneud gwleidyddol i'w groesawu, ond mae'n rhaid i athrawon fod yn ddiduedd.

## Ymwneud gwleidyddol mewn cyd-destun ysgol

### Dylai fod:

- yn annog dysgwyr i feddwl yn eang ac yn ddwys am faterion (gofyn 'pam')
- yn grymuso dysgwyr i ddeall prosesau gwleidyddol a'u hawliau a'u cyfrifoldebau eu hunain mewn cymdeithas
- yn eu hannog i feddwl am atebion creadigol i broblemau (gofyn 'beth allwn ni ei wneud am y peth?')
- yn rhoi'r gallu iddyn nhw nodi ble mae grym wedi'i leoli, pwy yw eu cynrychiolwyr gwleidyddol, a sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud (gofyn 'gan bwy mae'r grym i newid hyn a beth yw fy mherthynas i â nhw?)
- yn eu galluogi i fynegi eu hunain yn hyderus, yn gwrtais ac yn groyw i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac eraill.

### Ni ddylai fod:

- yn wleidyddiaeth bleidiol (mae'n iawn i ddysgwyr ymchwilio i safbwynt gwleidydd penodol ar fater ac ymateb iddo; nid yw'n iawn i athrawon wneud datganiadau pleidiol cyffredinol yn yr ysgol neu gyfleu eu gogwydd gwleidyddol eu hunain)
- yn bwydo camau gweithredu i ddysgwyr
- yn esgus bod atebion syml i broblemau cymhleth
- yn methu â rhoi sylw i amrywiaeth eang o safbwyntiau gwahanol
- yn annog gwahaniaethu yn erbyn pobl â safbwyntiau gwahanol
- yn ddifeddwl neu'n adweithiol
- yn ymwneud ag unrhyw beth sarhaus, anghyfreithlon neu beryglus (yn amlwg)!






# 4 Cymorth, adnoddau a chwestiynau cyffredin

## Sut gall Cymorth Cristnogol gefnogi eich ysgol

Mae llawer o feysydd y fframwaith achredu lle bydd cymorth ac adnoddau Cymorth Cristnogol yn hynod ddefnyddiol. Er enghraifft, mae Cymorth Cristnogol mewn sefyllfa dda i gefnogi dysgu am safbwyntiau Cristnogol ar amrywiaeth eang o faterion cyfiawnder byd-eang, o dlodi ac anghydraddoldeb i symudiadau ffoaduriaid a newid hinsawdd, yn ogystal â helpu dysgwyr i ymchwilio i'w hachosion, eu heffeithiau a'u datrysiadau posib.

Mae Cymorth Cristnogol hefyd yn darparu adnoddau a chyfleoedd i gefnogi pobl ifanc i bwyso a mesur a rhoi eu dewis gwybodus o weithredu ar waith, boed hynny'n hybu ymwybyddiaeth, codi llais neu godi arian, neu wrth feddwl a byw'n wahanol.

## christian-aid.org/schools

Mae ein gwefan i athrawon yn cynnig adnoddau, syniadau addysgu a gemau ar gyfer yr ystafell ddosbarth, yn ogystal â chymorth ar gyfer cydaddoli.

Unwaith y bydd eich ysgol wedi cofrestru, gallwch lawrlwytho'r **Pecyn adnoddau Cymdogion Byd-eang**. Mae'n cynnwys:

- Eich ffurflen hunanwerthuso
- Ffurflenni hunanwerthuso enghreifftiol
- Astudiaethau achos
- Canllaw ar ddinasyddiaeth fyd-eang dda
- Canllaw ar syniadau ar gyfer ystafell dosbarth
- Canllawiau ar gydaddoli
- Canllawiau ar ffyrdd i'r eglwys a'r ysgol gydweithio.

## Hyfforddiant ar-lein am ddim

Mae angen i o leiaf un person o'ch ysgol fynychu un o'n gweminarau, sy'n rhad ac am ddim. Dyma gyfle i ddeall mwy am y cynllun Cymdogion Byd-eang ac, yn hollbwysig, i ddysgu sut i lunio cais llwyddiannus.

Bydd hyfforddiant yn cael ei roi gan y tîm Cymdogion Byd-eang, a fydd yn cynnig arweiniad ymarferol ar sut i baratoi eich cais. Dim ond un weminar sydd angen i chi ei mynychu (bydd y cynnwys yr un fath bob tro). Byddwch yn derbyn gwybodaeth am sut i ymuno â sesiwn hyfforddi wrth gofrestru. Gallwch hefyd gael gafael ar gyfres o fideos hyfforddi i'w gwylio ar unrhyw adeg.



# Creadigol dros Gyfiawnder Hinsawdd

Prosiect celfyddydau cyfiawnder hinsawdd sy'n cael ei gynnal gan Cymorth Cristnogol yw Creadigol dros Gyfiawnder Hinsawdd (Llythyrau dros y Greadigaeth gynt), ac mae'n rhoi cyfle i bobl ifanc fynegi eu meddyliau a'u teimladau am y mater pwysig hwn drwy eiriau a lluniau. Mae'n weithgaredd delfrydol i ysgolion sy'n gwneud cais am wobr Cymdogion Byd-eang, ac mae'n bosib ei ailadrodd o un flwyddyn i'r llall.

Yn ogystal â helpu pobl ifanc i fyfyrio ar gyfiawnder hinsawdd, mae Creadigol dros Gyfiawnder Hinsawdd hefyd yn adnodd ar gyfer eiriolaeth ddewr. Yn y gorffennol, mae ysgolion wedi ei ddefnyddio'n llwyddiannus i helpu dysgwyr i ymgysylltu â gwleidyddion lleol a phobl sy'n gwneud penderfyniadau. Mae rhai ysgolion wedi gweithio gydag eglwys neu eglwys gadeiriol leol i gynnal arddangosfa. Mae ysgolion eraill wedi cydweithio ag artistiaid lleol.

Byddai Creadigol dros Gyfiawnder Hinsawdd yn enghraifft wych i'w defnyddio yn y meysydd meini prawf canlynol:

- addysgu a dysgu
- cydaddoli
- datblygiad ysbrydol
- ymgysylltu â'r gymuned

Yn fwy diweddar, rydyn ni wedi ymuno â phartneriaid eraill ar y prosiect Creadigol dros Gyfiawnder Hinsawdd, sy'n dathlu'r gwaith hwn gydag arddangosfa flynyddol o ymdrechion, gan gynnwys yn y Senedd a lleoliadau ar-lein ac all-lein eraill.

Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn, yn ogystal â gwasanaethau, cynlluniau gwersi ac adnoddau pellach, ar gael ar wefan Cymorth Cristnogol.




Bu disgyblion Ysgol Gynradd Aberllydan yn gweithio gydag eglwys leol y Bedyddwyr i greu darnau yn ymateb i gyfiawnder hinsawdd, ac yn tywys rhieni ac aelodau'r gymuned o gwmpas eu harddangosfa.

**Cysylltwch â ni:**
schools@christian-aid.org
neu
cymru@cymorth-cristnogol.org





Bu'r artist **Jeremy Thomas** yn gweithio gyda phlant yn Nhrefynwy ar brosiect celf Creadigol dros Gyfiawnder Hinsawdd. Cafodd y delweddau eu crynhoi yn y darn olaf hwn.



# Adnoddau a chymorth pellach

Dydyn ni ddim yn disgwyl i ysgolion ddibynnu ar adnoddau a chymorth Cymorth Cristnogol yn unig. Mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill yn greiddiol i fudiad Cymorth Cristnogol, ac rydyn ni eisiau i'n cymorth ddatblygu ar, ac ychwanegu gwerth at, gefnogaeth sy'n dod o lefydd eraill, yn hytrach na chystadlu. Gellir crynhoi popeth y mae eich ysgol yn ei wneud i gefnogi'r meini prawf ar gyfer achrediad o dan y cynllun hwn.

Dyma i chi ddim ond rhai o'r syniadau a'r canllawiau a allai helpu ysgol sydd wedi ymrwymo i ddatblygu dinasyddiaeth fyd-eang, sy'n ychwanegol i'r rhai a restrir yn y *Calendr Dinasyddiaeth Fyd-eang* ar dudalennau 38 a 39.





## Adnoddau a chymorth pellach

### Gwobr i Arweinwyr Ifanc yr Archesgob

**www.abyyt.comyla**

Mae Gwobr i Arweinwyr Ifanc yr Archesgob yn rhaglen effeithiolrwydd ac arweinyddiaeth bersonol unigryw, sy'n grymuso pobl ifanc i wneud gwahaniaeth yn eu cymuned leol a datblygu sgiliau arwain allweddol ar yr un pryd. Mae'r Wobr wedi'i theilwra i anghenion ysgolion yng Nghymru ac mae'n darparu deunyddiau rhyngweithiol sy'n galluogi dysgwyr i ddysgu am sgiliau arwain allweddol, datblygu eu heffeithiolrwydd personol a derbyn cyfleoedd ymarferol i wirfoddoli a helpu eraill yn eu cymuned.

### Adnoddau addysgol Cafod

**Adnoddau addysgu cynradd (cafod.org.uk)**

Gyda llwyth o syniadau a gweithgareddau ystafell ddosbarth ar gyfer athrawon prysur, mae'r adnoddau'n cynnwys cynlluniau gwersi, gwasanaethau CAFOD, gweddïau a syniadau ar gyfer codi arian.

### Addysg yr Eglwys yng Nghymru

**www.churchinwales.org.uk/cy/education/**

Mae gan adran Addysg yr Eglwys yng Nghymru amrywiaeth o adnoddau ar y cwricwlwm i gefnogi'r canllawiau diweddaraf ym maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae nifer o brosiectau hefyd sy'n canolbwyntio ar feysydd fel addysg hinsawdd ac addysg ffoaduriaid.

### Gwefan Global Dimension

**globaldimension.org.uk**

Mae gwefan Global Dimension yn cynnig canllawiau chwiliadwy ar gyfer dros 1,000 o lyfrau, ffilmiau, posteri ac adnoddau ar-lein wedi'u hadolygu sy'n cefnogi dysgu byd-eang ar draws pob grŵp oedran a phwnc.

### Grove Books

**grovebooks.co.uk**

'Igniting Potential – Developing Character and Leadership Through Social Action', Elizabeth Howat.
'Sustaining Global School Links', Alison Brown ac Anita Matthews.

### Hwb

**hwb.gov.wales**

Mae Hwb yn cynnwys adnoddau dwyieithog ar gyfer pob maes o'r cwricwlwm. Byddai llawer o adnoddau'r Dyniaethau, yn enwedig y cynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, yn ddefnyddiol i ddysgu dinasyddiaeth fyd-eang.

### Penguin

**Lit in colour – Cefnogi darllen cynhwysol mewn ysgolion (penguin.co.uk)**

Darllen ac adnoddau i gynorthwyo eich ysgol ar eu taith wrth-hiliol. Chwalu'r rhwystrau i gwricwlwm llenyddiaeth Saesneg mwy cynrychioliadol.

### Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

**Astudiaethau Achos Dinasyddiaeth Fyd-eang – Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (wcia.org.uk)**

Dysgwch sut mae ysgolion yn datblygu dinasyddion byd-eang yn eu hysgolion a sut mae pobl ifanc yn gweithio gyda'i gilydd i weithredu o blaid newid cadarnhaol yn eu hysgolion a'u cymunedau.

## Sut mae gwirio ei fod yn gweithio?


**toolkit.risc.org.uk**

Mae'r pecyn cymorth arloesol hwn yn darparu 42 o weithgareddau dosbarth diddorol i ddysgwyr o bob oed ynghyd ag astudiaethau achos sy'n rhannu syniadau ar gyfer defnyddio'r gweithgareddau wrth gynllunio, addysgu a gwerthuso. Wedi'i ddyfeisio gan rwydwaith o athrawon yn y DU, y Weriniaeth Tsiec, Slofacia ac Ethiopia, mae'r pecyn cymorth yn cefnogi athrawon i ganfod beth yw barn dysgwyr am faterion byd-eang a lleol ac mae'n cynnig adnoddau ar gyfer mesur effaith eu haddysgu.

## RE Today Services

**retoday.org.uk**

Mae RE Today Services yn gweithio'n genedlaethol ac yn rhyngwladol i gefnogi Addysg Grefyddol mewn ysgolion. Mae wedi ymrwymo i addysgu prif grefyddau'r byd mewn Addysg Grefyddol, ac i gynrychiolaeth gywir a theg o'u credoau, eu gwerthoedd a'u harferion yn ei holl ddeunyddiau addysgu. Mae'r wefan yn cynnwys llawer o syniadau ar gyfer gweithgareddau addysgu.




## Canllawiau dinasyddiaeth fyd-eang Oxfam

**oxfam.org.uk/education**

Mae cyfres Oxfam o ganllawiau Dinasyddiaeth Fyd-eang yn cynnig arweiniad defnyddiol ac ymarferol i ysgolion:

- Mae *Education for Global Citizenship: A guide for schools* yn darparu canllaw manwl ar ddatblygu a hybu dinasyddiaeth fyd-eang ar draws yr ystod oedran 4-11
- Mae *Global Citizenship in the Classroom: a guide for teachers* yn cynnig llawer o syniadau addysgu ymarferol ac adnoddau datblygu'r cwricwlwm
- Mae *Building Successful School Partnerships* yn rhoi arweiniad ar ddatblygu cysylltiadau ysgolion rhyngwladol sydd o fudd i'r ddwy ochr ac ymgorffori'r rhain yn y cwricwlwm
- Mae *canllawiau dinasyddiaeth fyd-eang ar wahân ar gyfer Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth* yn darparu cyfoeth o awgrymiadau ar gyfer datblygu dealltwriaeth dysgwyr o faterion cyfiawnder byd-eang drwy'r pynciau hynny.

## Blippit Boards

Mae'n bosib cipio tystiolaeth Cymdogion Byd-eang gan ddefnyddio ap o'r enw Blippit Boards. Er mwyn hwyluso monitro, mae dangosfwrdd yn rhoi golwg oddi fry ar dystiolaeth wedi'i thagio, sydd i'w gweld ar ffurf siartiau rhyngweithiol hawdd eu darllen i ddangos bylchau neu gryfderau mewn amser real. Gallwch gynhyrchu adroddiad PDF gyda mynegai mewn eiliadau, a'i lanlwytho yn ddogfen ategol fel rhan o'ch cais Cymdogion Byd-eang.

## Gwasanaeth ysgolion ar-lein (y British Council)

**schoolsonline.britishcouncil.org**

Mae gwasanaeth Schools Online y British Council yn darparu mynediad at adnoddau ystafell ddosbarth, cyfleoedd datblygiad proffesiynol a siawns i greu perthynas ag ysgolion ledled y byd.



# Calendr dinasyddiaeth fyd-eang



Mae sawl dyddiad yn y calendr sy'n gallu ysbrydoli neu greu canolbwynt gwych ar gyfer addysgu a dysgu, cydaddoli, cyfranogiad dysgwyr mewn dinasyddiaeth fyd-eang weithredol ac ymgysylltu â'r gymuned. Dyma rai awgrymiadau am gyfleoedd o'r fath sydd wedi bod o fudd i ysgolion.

Mae Cymorth Cristnogol yn cynhyrchu ei adnoddau perthnasol ei hun ar gyfer y diwrnodau hynny sydd wedi eu huwcholeuo'n oren. Gallwch lawrlwytho adnoddau Cymorth Cristnogol sy'n cael eu crybwyll yn y calendr o caid.org.uk/schools. Byddwch hefyd yn dod o hyd i adnodd i'ch helpu i ymateb i drychinebau a manylion unrhyw ymgyrchoedd apêl brys.

| | | |
|---|---|---|
| **Diwrnod Martin Luther King Jr** | **18 Ionawr** | Diwrnod yn nodi bywyd yr ymgyrchydd hawliau sifil enwog. Mae gan Cymorth Cristnogol wasanaeth ar thema Martin Luther King yn christianaid.org.uk/schools |
| **Diwrnod Cofio'r Holocost** | **27 Ionawr** | Dysgu gwersi o'r Holocost a hil-laddiadau diweddarach i greu dyfodol gwell a mwy diogel. Mae gan Ganolfan Genedlaethol yr Holocost adnoddau defnyddiol ar gyfer ysgolion yn holocaust.org.uk |
| **Show the Love** | **Chwefror** | Cyfle i ddysgwyr ddysgu am newid hinsawdd a mynegi eu pryder am ei effeithiau ar bobl a'r blaned. Mae manylion ac adnoddau ar gael yn theclimatecoalition.org/show-the-love |
| **Y Grawys** | **Chwefror / Mawrth** | Cyfle i ddysgwyr nodi'r Grawys drwy ymuno â Cymorth Cristnogol i gyfrif eu bendithion. Mae adnoddau ar gyfer y Grawys a'r Pasg ar gael ar wefan Cymorth Cristnogol. |
| **Diwrnod Rhyngwladol y Menywod** | **8 Mawrth** | Mae Cymorth Cristnogol yn cynnig deunydd gwasanaeth sy'n archwilio anghydraddoldebau rhywedd. |
| **Pythefnos Masnach Deg** | **Diwedd Chwefror / dechrau Mawrth** | Hyrwyddo egwyddorion a chynnyrch masnach deg. Gwiriwch y dyddiadau ac adnoddau'r Sefydliad Masnach Deg yn schools.fairtrade.org.uk/. Mae gêm Masnach Siocled Cymorth Cristnogol a gwasanaethau Masnach Deg Cymorth Cristnogol ar gael ar-lein. |
| **Diwrnod Dŵr y Byd** | **22 Mawrth** | Mae gwasanaethau Cymorth Cristnogol ar thema dŵr ar gael ar-lein. |
| **Diwrnod Iechyd y Byd** | **7 Ebrill** | Hybu ymwybyddiaeth o wahanol fygythiadau i'n hiechyd. Mae gwasanaethau Cymorth Cristnogol ar thema iechyd ar gael ar-lein. |
| **Diwrnod y Ddaear** | **22 Ebrill** | Hybu ymwybyddiaeth o'r heriau i les ein planed a'r bywyd y mae'n ei gynnal. |
| **Diwrnod Malaria y Byd** | **25 Ebrill** | Hybu ymwybyddiaeth o falaria fel clefyd iachadwy ac ataliadwy. Mae gan Cymorth Cristnogol wasanaeth ar thema malaria sydd ar gael ar-lein. |





| | | |
|---|---|---|
| **Send My Friend to School** | **Ebrill – Gorffennaf** | Adnoddau i gefnogi dysgu a gweithredu fel y gellir cael gafael ar addysg o safon ledled y byd: www.sendmyfriend.org |
| **Wythnos Cymorth Cristnogol** | **Mai** | Wythnos o weithredu gan Cymorth Cristnogol, gydag adnoddau ar gyfer addysgu a dysgu ar gael ar-lein. Gwiriwch y dyddiadau bob blwyddyn ar wefan Cymorth Cristnogol, er y gallai gweithgareddau ddigwydd y tu allan i'r wythnos hon. |
| **Diwrnod Amgylchedd y Byd** | **5 Mehefin** | Hybu ymwybyddiaeth o'r angen i warchod a gwella'r amgylchedd. Mae gan Cymorth Cristnogol lawer o wasanaethau ar themâu newid hinsawdd a chynaliadwyedd. |
| **Diwrnod y Byd yn Erbyn Llafur Plant** | **12 Mehefin** | Tynnu sylw at drafferthion plant ar draws y byd sy'n cael eu gorfodi i weithio: un.org/en/observances/world-day-against-child-labour |
| **Wythnos y Ffoaduriaid** | **June** | Hybu ymwybyddiaeth o realiti profiadau ffoaduriaid a dathlu cyfraniad ffoaduriaid i'r DU. Gwiriwch yr union ddyddiadau bob blwyddyn yn refugeeweek.org.uk. Mae gêm fwrdd gan Cymorth Cristnogol i helpu dysgwyr i ddeall yr heriau sy'n wynebu ffoaduriaid: Mae'n bosib archebu Ludo Lle Diogel drwy wefan Cymorth Cristnogol. |
| **Diwrnod Rhyngwladol Nelson Mandela** | **18 Gorffennaf** | Galwad i bobl ym mhobman weithredu a chymryd cyfrifoldeb am wneud y byd yn lle gwell, un cam bach ar y tro, yn union fel y gwnaeth Nelson Mandela. Mae gan Cymorth Cristnogol wasanaeth ar thema Nelson Mandela. |
| **Diwrnod Rhyngwladol Heddwch** | **21 Medi** | Wedi'i sefydlu gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn 2001, mae Diwrnod Rhyngwladol Heddwch yn galw ar bawb ledled y byd i barchu cadoediad drwy gydol y dydd. Dysgwch fwy yn internationaldayofpeace.org. Mae gan Cymorth Cristnogol wasanaethau ar themâu gwrthdaro a heddwch. |
| **Diolchgarwch** | **Medi** | Mae dewis helaeth o ddeunydd am ŵyl Diolchgarwch ar wefan Cymorth Cristnogol. |
| **Mis Hanes Pobl Ddu** | **1-31 Hydref** | Dathlu ac anrhydeddu cyflawniadau, diwylliant a hanes pobl ddu tra'n cydnabod profiadau parhaus o hiliaeth ac ymgyrchu i'w ddileu. |
| **Diwrnod Bwyd y Byd** | **16 Hydref** | Hybu ymwybyddiaeth o ddiogelwch bwyd a chryfhau undod yn y frwydr yn erbyn newyn. Mae gan Cymorth Cristnogol wasanaethau ar themâu bwyd a newyn. |
| **Diwrnod Rhyngwladol Dileu Tlodi** | **17 Hydref** | Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r angen i ddileu tlodi ac amddifadedd ym mhob gwlad. Mae llawer o adnoddau perthnasol ar wefan Cymorth Cristnogol. |
| **Diwrnod Gwrthgaethwasiaeth** | **18 Hydref** | Hybu ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl. |
| **Wythnos Un Byd** | **Hydref** | Mae Wythnos Un Byd yn cynnig ysbrydoliaeth a gobaith i annog pobl i weithredu er mwyn creu byd cyfiawn, mwy cyfartal, cynhwysol a heddychlon. Ewch i oneworldweek.org i weld yr union ddyddiadau bob blwyddyn. |
| **Diwrnod Toiled y Byd** | **19 Tachwedd** | Hybu ymwybyddiaeth o faterion glanweithdra. Mae gan Cymorth Cristnogol wasanaethau ar themâu dŵr a glanweithdra. Mae digonedd i'ch ysbrydoli yn www.toilettwinning.org |
| **Nadolig** | **Rhagfyr** | Mae gan Cymorth Cristnogol ac adran Addysg yr Eglwys yng Nghymru ddeunydd sy'n canolbwyntio ar y Nadolig ar eu gwefannau. |

# Cwestiynau cyffredin (parhad)

## Cymorth, adnoddau a phartneriaethau

**All ein hysgol barhau i dderbyn cymorth ac adnoddau gan Cymorth Cristnogol hyd yn oed os ydyn ni'n dewis peidio â cheisio sicrhau achrediad?**
Gall, wrth gwrs. Mae ein hadnoddau addysgu a dysgu ar gael am ddim i bob ysgol ar ein gwefan.

**Allwn ni weithio gydag ysgolion eraill yn yr ardal neu'r esgobaeth leol?**
Gallwch – mewn gwirionedd, rydyn ni'n annog ysgolion yn gryf i rannu'r daith tuag at achrediad gydag ysgolion eraill y mae ganddyn nhw berthynas agos â nhw.

**Ydy Cymorth Cristnogol yn darparu cymorth ar gyfer cysylltu ag ysgolion rhyngwladol?**
Allwn ni ddim cysylltu ysgolion ym Mhrydain ag ysgolion mewn rhannau eraill o'r byd, ond mae llawer o sefydliadau a chynlluniau eraill sy'n gwneud hynny. Gweler yr adran Adnoddau a Chymorth Pellach ar dudalennau 34-37.

## Cysylltu


**Sut mae mynegi diddordeb ein hysgol mewn cymryd rhan?**
Cofrestrwch yn caid.org.uk/cbyd-eang. Mae cofrestru yn rhad ac am ddim, ac nid yw'n golygu ymrwymiad ar ran eich ysgol i wneud cais am achrediad. Wedi hynny, eich ysgol sy'n penderfynu pa mor gyflym i symud ar hyd y daith tuag at achrediad.

**Gyda phwy ddylwn i gysylltu os oes gen i gwestiwn neu broblem nad yw'r llawlyfr hwn yn ei gynnwys?**
E-bostiwch gnadmin@christian-aid.org neu cymru@cymorth-cristnogol.org a byddwn yn ymateb cyn gynted â phosib.

**Sut mae archebu adnoddau neu ddysgu mwy am eich gwaith ysgolion?**
Ewch i caid.org.uk/schools neu e-bostiwch cymru@cymorth-cristnogol.org







# Pob hwyl ar eich taith i ddod yn ysgol Cymdogion Byd-eang

## Mae Cymorth Cristnogol ac Addysg yr Eglwys yng Nghymru yn rhannu gweledigaeth o addysg sy'n galluogi pawb i brofi bywyd yn ei holl gyflawnder.



Mae Cymorth Cristnogol yn fudiad Cristnogol sy'n mynnu bod modd newid y byd yn gyflym i un lle mae pawb yn gallu byw bywyd llawn, yn rhydd o dlodi, a bod rhaid i hynny ddigwydd. Yn ogystal â darparu cymorth brys, ymarferol ac effeithiol mewn mannau mawr ei angen, mae'n gweithio dros newid gwirioneddol ymhob cwr o'r byd i ddileu achosion tlodi, gan ymdrechu i sicrhau cydraddoldeb, urddas a rhyddid i bawb, waeth beth fo'u ffydd na'u cenedligrwydd. Mae'n rhan o fudiad ehangach i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol.

Mae Addysg yr Eglwys yng Nghymru yn gweithio gyda chydweithwyr mewn esgobaethau ledled Cymru i ddarparu cymorth ac arweiniad i'n hysgolion. Mae ein dull yn dathlu addysg greadigol, dosturiol sy'n croesawu ac yn grymuso, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i ymgysylltu â materion "pwrpas, ffydd a chred" gan gyflawni eu rolau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas sy'n barod i gymryd rhan lawn mewn bywyd a gwaith fel dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd.

**Gyda diolch arbennig i staff a disgyblion Ysgol y Wig a Marcroes am eu cefnogaeth a'u croeso.**

**Cydnabyddiaeth lluniau:** clawr blaen a thudalen 27 Ysgol y Wig a Marcroes; tudalen 2 Yr Eglwys yng Nghymru; tudalennau 4, 12, 42 Shutterstock; tudalen 5 Esther Nsapu/Cymorth Cristnogol; tudalennau 7, 8, 14, 29, 34, 38 Elias Assaf/Cymorth Cristnogol; tudalennau 6, 9, 16, 18, 21, 23, 26, 28, 30, 32, 36, 40 Rebecca Elliott/Cymorth Cristnogol; tudalennau 24, 33 Cymorth Cristnogol; tudalen 31 Amanda Phillips/Ysgol Nantgaredig; tudalen 37 AMARU_P/Cymorth Cristnogol; tudalen 43 Adam Haggerty/Cymorth Cristnogol; clawr cefn David Brazier/Cymorth Cristnogol

cymorth cristnogol christian aid

F5014

Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o'r ACT Alliance. Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851, Rhif elusen yr Alban SC039150, Rhif cwmni 5171525, Cymorth Cristnogol Iwerddon: Rhif elusen Gogledd Iwerddon NIC101631, Rhif cwmni NI059154, a Rhif elusen Gweriniaeth Iwerddon 20014162 a Rhif cwmni 426928. Mae enw a logo Cymorth Cristnogol yn nodau masnach Cymorth Cristnogol.

YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE CHURCH IN WALES